

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diogelwch Tân

12 Mehefin 2020

## 1. Cefndir

1. Ar 30 Ebrill 2020, gosododd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar gyfer y Bil Diogelwch Tân sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.
2. Ar 4 Mai 2020, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ("y Pwyllgor") a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod. Gosododd y Pwyllgor Busnes derfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 18 Mehefin 2020. Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 2 Mehefin 2020.
3. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu eto i drafod cydsyniad y Senedd i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel yr amlinellir yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol).

## 2. Y Memorandwm

4. Mae paragraffau 3 i 7 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 8 a 9 yn nodi'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Mae paragraffau 10 i 12 yn nodi barn Llywodraeth Cymru am y darpariaethau sy'n cael eu gwneud mewn Bil yn y DU, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd.



### 3. Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**5.** Ceisir cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 3 (gyda rhai eithriadau) oherwydd bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â diogelwch tân adeiladau yng Nghymru.

**6.** Mae cymal 1 yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (“y Gorchymyn”) i egluro ei fod yn gymwys pan fo'r fangre yn adeilad sy'n cynnwys dwy neu ragor o setiau o fangreoedd domestig i:

(a) strwythur a waliau allanol yr adeilad (sy'n cynnwys drysau a ffenestri ac unrhyw beth sydd ynghlwm wrth y waliau allanol, megis cladin, inswleiddio, gosodiadau a balconïau) ac unrhyw rannau cyffredin;

(b) drysau rhwng mangreoedd domestig a rhannau cyffredin.

**7.** Mae cymal 2 yn rhoi pŵer i'r “awdurdod perthnasol” wneud rheoliadau i ddiwygio'r Gorchymyn at ddiben newid neu egluro'r fangre y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddi. Bydd defnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Diffinnir yr awdurdod perthnasol fel yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â mangreoedd yn Lloegr a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru. Mae cymal 2(2)(a) a 2(7) yn gymwys i Loegr yn unig ac ni cheisir cydsyniad y Senedd.

**8.** Mae cymal 3(2)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cychwyn cymal 1 o'r Bil (sy'n gwneud y gwelliannau gweithredol i estyn cwmpas y Gorchymyn) mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn galluogi'r darpariaethau i ddod i rym fel yr ystyrir ei bod yn briodol ar gyfer mangreoedd yng Nghymru. Nid oes gweithdrefn yn gymwys i'r rheoliadau hyn.

### 4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

**9.** Mae paragraffau 10 i 12 yn nodi rhesymeg Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn drwy ddeddfwriaeth y DU yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd. Mae'n pwysleisio y “gallai achosion uniongyrchol tân Tŵr Grenfell fel y'u nodwyd gan yr Ymchwiliad Cyhoeddus godi yn yr un modd mewn blociau o fflatiau yng Nghymru.” Mae'n ychwanegu nad yw'r Gorchymyn “yn amddiffyn [blociau o'r fath] yn ddigonol” ar hyn o bryd. Mae o'r farn y byddai'r Bil yn cywiro

rhai diffygion allweddol, ac yn “creu ffordd bwysig o sicrhau diogelwch rhag tân mewn blociau o fflatiau.”

**10.** Mae'r Memorandwm hefyd yn tynnu sylw at y cymhlethdod ychwanegol y gwnaed y Gorchymyn o dan Ddeddf sydd bellach wedi'i diddymu, sef Deddf Diwygio Rheoleiddio 2001. (Cafodd ei diddymu yn 2007.) Felly, nid oes modd diwygio'r Gorchymyn heblaw drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

**11.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes lle yn ei rhaglen ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaethau tebyg, ac nad oes Bil lle y gellid ychwanegu darpariaethau o'r fath. Mae'n dweud bod y Bil wedi'i ddatblygu gyda “t[h]rafodaeth lawn” rhwng y ddwy weinyddiaeth ac y bydd yn “cyflawni” amcanion polisi “llawer cynt nag a fyddai'n digwydd fel arall”.

## 5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

**12.** Fel Pwyllgor, rydym wedi ymddiddori'n frwd mewn diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn yn dilyn y tân arswydus yn Nhŵr Grenfell ym mis Mehefin 2017. Rydym wedi nodi ein pryderon a'n hargymhellion ar gyfer newid mewn gohebiaeth ac adroddiadau.<sup>1</sup> Un o'r problemau sylweddol o'r cychwyn cyntaf oedd y diffygion amlwg yn y Gorchymyn. Yn ein hadroddiad ar adeiladau yn y sector preifat, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i ddisodli'r Gorchymyn yn y Cynulliad (fel y'i gelwid bryd hynny) presennol, ac y dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys:

- Safonau ar gyfer personau sy'n cynnal asesiadau risg tân;
- Gofyniad i gynnal asesiadau risg tân o leiaf yn flynyddol ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn;
- Eglurhad yr ystyrir bod drysau tân sy'n ddrysau blaen fflatiau yn rhan o'r ardaloedd cymunol, felly wedi'u cwmpasu gan y ddeddfwriaeth sy'n disodli Gorchymyn Diogelwch Tân 2005.<sup>2</sup>

**13.** Mae wedi bod yn destun siom i ni nad ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wneud hyn yn ystod sesiwn bresennol y Senedd. Rydym bob amser wedi cydnabod y cymhlethdodau a'r angen i ddilyn dull system gyfan o ran diogelwch tân. Fodd bynnag, credwn fod y mater hwn mor bwysig y dylai'r flaenoriaeth uchaf

---

<sup>1</sup> Tudalen we'r ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn

<sup>2</sup> Pwyllgor CLILCh, Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (sector preifat), Tachwedd 2018

fod wedi'i rhoi iddo, gan wneud pob ymdrech i gyflwyno'r ddeddfwriaeth bellgyrhaeddol sydd ei hangen.

**14.** Mae'r Bil Diogelwch Tân, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, er ei fod yn fyr a heb gwmpasu'r holl faterion allweddol, yn gam ymlaen o leiaf. Mae'n ceisio cywiro rhai o ddiffygion y Gorchymyn. Rydym yn croesawu'r newidiadau a nodir yn y Bil, ac yn cefnogi'r Memorandwm. Mae defnyddio deddfwriaeth Llywodraeth y DU i wneud newidiadau angenrheidiol na fyddai, fel arall, yn digwydd tan y Senedd nesaf yn ddull synhwyrol.

**15.** Mae'r Bil hwn, serch hynny, yn hepgor llawer, fel y pwysleisiodd cydweithwyr seneddol yn San Steffan yn ystod yr Ail Ddarlleniad, er enghraifft, nid oes darpariaeth ynghylch profi drysau tân na lifftiau.<sup>3</sup> Nid yw, ychwaith, yn ymdrin â'r isafswm safonau ar gyfer aseswyr nac yn gosod gofyniad ar gyfer asesiadau blynyddol o adeiladau uchel iawn.

**16.** Heb bandemig Covid-19, mae'n debygol y byddai ein gwaith craffu ar y Memorandwm wedi bod yn fwy helaeth, gan gynnwys sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'r newidiadau yn y Bil hwn yn cyd-fynd â gweithredu'r map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

**17.** Er bod y newidiadau yn y Bil hwn yn bwysig ac wedi'u croesawu, nid ydynt yn ddigonol. Mae angen bwrw ymlaen â gwella diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn gyda mwy o frys a chyflymder. Rydym yn cydnabod na fydd y ddeddfwriaeth diogelwch tân helaeth y byddem wedi hoffi iddi gael ei phasio yn y Senedd bresennol bellach yn digwydd, ond mae'n rhaid iddi fod ar frig blaenoriaethau unrhyw weinyddiaeth yn y dyfodol. Erbyn hyn, mae'n annhebygol y bydd deddfwriaeth i ddatrys rhai o'r problemau sylfaenol hyn yn dod i rym tan o leiaf 2022. Pum mlynedd ar ôl Grenfell fydd hyn. Mae hynny'n annerbyniol. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol sy'n llywodraethu diogelwch adeiladau uchel iawn o ran dylunio, adeiladu, meddiannu ac ailwampio er mwyn sicrhau na fydd trasiedi o'r fath y gellir ei hosgoi fyth yn digwydd eto.

---

<sup>3</sup> [Hansard, Tŷ'r Cyffredin, 29 Ebrill 2020, Colofn 351](#).